Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pan ddaw'r archwilydd

## Canllaw defnyddiol i ffermwyr

Argraffiad 2024



© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49335, ISBN argraffu 978-1-83577-882-1, ISBN digidol 978-1-83577-880-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Cynhelir archwiliadau fferm ar sampl o ffermydd bob blwyddyn i sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio a'r rheoliadau sy'n ofynnol iddyn nhw eu dilyn fel amod derbyn cymorth ariannol neu am gadw da byw.

Mae'r ffermydd yn cael eu harchwilio i asesu a yw'r ffermwr yn cadw at amodau cynlluniau unigol. Mae ffermwyr sy'n cael y Taliad Sylfaenol neu daliad o dan Gynlluniau Cymorth Amaethyddol yn gorfod cydymffurfio a rheolau Trawsgydymffurfio ynghyd a rheolau'r gwahanol gynlluniau.

Mae'r ddogfen yma wedi ei diweddaru ac ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd a gwybodaeth ychwanegol i ffermwyr yng Nhymru www.llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad

Bydd y cyngor yn y canllaw hwn yn eich helpu i baratoi ar gyfer archwiliadau Trawsgydymffurfio, archwiliadau Cymhwyster Tir â'r Cynlluniau Cymorth Amaethyddol. Mae'n disgrifio'n glir beth yn union sydd angen i chi i wneud cyn i'r archwilydd alw ac yn esbonio beth fydd yr archwilydd yn ei wneud yn ystod yr archwiliad.

Mae'r canllaw hwn yn offeryn cyfeirio y gallwch ei gadw a chyfeirio ato unrhyw bryd. **Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canlynol:**

- Taflenni canllaw ffermwyr i Trawsgydymffurfio
- Llyfryn Rheolau'r Cais Sengl
- Canllaw i Geidwaid Gwartheg
- Canllaw i Geidwaid Defaid – y rheolau ar adnabod defaid a geifr
- Canllawiau ar gyfer Cynlluniau Cymorth Amaethyddol.

Yn aml mae gorgyffwrdd rhwng agweddau ar arolygiadau Trawsgydymffurfio a mathau eraill o archwiliadau fferm megis y rhai a gynhelir gan adrannau safonau masnach awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynlluniau Sicrwydd Fferm, ond mae'r canllaw hwn wedi ei gyfyngu i'ch helpu i baratoi ar gyfer Trawsgydymffurfio, Cymhwyster Tir a Chynlluniau Cymorth Amaethyddol.

Yn ogystal ag arweiniad ar sut i baratoi a beth fydd yn digwydd yn ystod archwiliad ar eich fferm, er hwylustod mae copïau o'r cofnodion fferm sy'n gysylltiedig â Thrawsgydymffurfio, ynghyd a'r gwahanol gynlluniau eraill wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn. Mae pob cofnod yn cynnwys enghraifft wedi'i pharatoi er gwybodaeth. Mae'r holl gofnodion ar gael ar-lein i ffermwyr i gadw eu cofnodion fferm eu hunain.

Mae eich cydweithrediad yn ystod arolygiad yn hanfodol i sicrhau y gall yr arolygiad fynd rhagddo'n gyflym, yn effeithiol ac yn ddiogel i bawb dan sylw.

Rydym bob amser yn awyddus i ddiweddaru a gwella'r arweiniad a'r cymorth a ddarparwn i ffermwyr felly rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau. Gellir cyflwyno'r rhain i FarmLiaisonService@llyw.cymru.

**Nodir bod y wybodaeth yn y ddogfen yma yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi ar 6 Mawrth 2024.**

# Cysylltiadau defnyddiol

**Llywodraeth Cymru**
www.llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru**
Dydd Llun – Dydd Gwener 9am-4pm
Ffôn: 0300 062 5004

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
Ffôn: 0300 065 3000 (Pob ymholiad)
(Ymholiadau cyffredinol 9am-5pm, llinell gymorth ar gyfer digwyddiadau 365 diwrnod y flwyddyn 24 awr y dydd)
www.naturalresourceswales.gov.uk/?lang=cy
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

**Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
Ffôn: 0300 303 8268
APHA.CymruWales@apha.gov.uk

**Codau Lles Anifeiliaid**
www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
Ffôn: 0345 050 1234 (Cymraeg)
Ffôn: 0345 050 3456 (Saesneg)
www.bcms.gov.uk

**Llywodraeth Leol**
Ffôn: 02920 468600
www.wlga.cymru/home

**EID Cymru**
Ffôn: 01970 636959
www.eidcymru.org/eidcymru

**eAML2 (moch)**
Ffôn: 0844 335 8400 (Llinell gymorth)
www.eaml2.org.uk/ami/home.eb

**AHDB**
www.ahdb.org.uk
Ffôn: 024 7669 2051
info@ahdb.org.uk

**DEFRA (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)**
www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs

Mawrth 2024

# Pan ddaw'r Archwilydd

Sut i baratoi a beth i'w ddisgwyl…


Gwybodaeth Gyffredinol 6

Archwiliad o'r Fuches Gyfan (SMR 7) 7

Archwiliad o Ddefaid a Geifr (SMR 8) 9

Archwiliad Trawsgydymffurfio
- GAEC 12
- Diogelu Dŵr (SMR 1) 13
- Adar Gwyllt (SMR 2) 15
- Gwarchod Ffawna a Fflora (SMR 3) 16
- Bwyd a Chyfraith Bwyd (SMR 4) 17
- Moch – Adnabod a Chofrestru (SMR 6) 19
- Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (SMR 9) 20
- Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion – Plaladdwyr (SMR 10) 21
- Lles Lloi (SMR 11), Lles Moch (SMR 12), Lles Cyffredinol Anifeiliaid (SMR 13) 22

Archwiliad i gadarnhau bod y Tir yn gymwys (IACS) 23

Archwiliad Cynllun Cynefin Cymru 24

Monitro Cynlluniau Grantiau Cyfalaf 25

Rhestr termau 26

Atodiad A – Adendwm (SMR1) 27

Atodiad B – Templedi 29

# Gwybodaeth Gyffredinol

## Rhoi gwybod am archwiliad

Gall archwiliad:

- gael eu cynnal heb rybudd
- gael eu cyhoeddi ymlaen llaw.

**Rhaid** i archwiliadau y cafwyd rhybudd yn eu cylch ddechrau ymhen 48 awr i'r adeg y cysylltir â'r ffermwr.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

- Bydd archwilwyr bob amser yn dilyn arferion bioddiogelwch da wrth gyrraedd a gadael eich fferm. Dylech ymgyfarwyddo â'r arferion da hynny a mynnu bod pob ymwelydd â'ch fferm yn eu dilyn i'r llythyren er mwyn cadw'ch fferm yn ddiogel rhag clefydau.
- Bydd yr archwilydd yn stampio ac yn llofnodi'r cofnodion y bydd yn eu harchwilio.
- Gallai'r archwilydd gasglu tystiolaeth ffotograffig am broblemau cydymffurfio a diffyg cydymffurfio.
- Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd yr archwilydd yn llenwi IACS 7 (crynodeb o'r ymweliad) gan nodi manylion canlyniad yr archwiliad.
- Mae'n bosibl y caiff archwiliadau papur eu cynnal yn ôl yn y swyddfa ar ôl yr archwiliad.
- Gallai enghreifftiau gynnwys:
  - cwblhau mesuriadau arwynebedd os yw ffiniau wedi newid neu os difrodwyd cynefinoedd
  - er mwyn archebu tagiau clust newydd ar gyfer da byw, neu
  - gwneud yn siŵr eich bod yn gymwys drwy gyfeirio at hawliadau'r flwyddyn gynt.
- Mae'n bosibl y bydd rhagor o wiriadau'n cael eu cynnal ar ffermydd ar ôl archwiliadau. Gallai'r rhain gynnwys:
  - Gwiriadau dilynol i weld bod camau adferol wedi'u cymryd h.y. bod tagiau clust newydd ar gyfer da byw wedi'u rhoi ar yr anifail/anifeiliaid.
  - Gwiriadau gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilio'r UE ar y broses archwilio.


## Beth ddylech chi ei wneud

Dilynwch y canllawiau ar sut i baratoi ar gyfer pob archwiliad. Hefyd:

- Os ydych wedi cael rhybudd ymlaen llaw, gofalwch eich bod chi neu'ch cynrychiolydd ar gael i gwrdd â'r archwilydd ar y dyddiad a'r amser y cytunwyd arnyn nhw.
- Gofalwch eich bod yn ateb pob llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ac wedi ateb unrhyw gwestiynau.
- Cadwch gofnodion cywir, cyflawn a chyfoes.
- Cydweithiwch â'r archwilwyr i wneud yn siŵr bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus.
- Bydd yr archwilydd yn gofyn ichi lofnodi ffurflen IACS 7/crynodeb o adroddiad yr ymweliad a chewch gyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud. Caiff copi ei roi ichi a dylech ei gadw'n ddiogel.

Mae rhagor o wybodaeth am reolau cynlluniau i'w gweld ar ein gwefan ac yn llyfrynnau'r cynlluniau perthnasol.

# Archwiliad o'r Fuches Gyfan (SMR 7)



## Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati o fewn y terfynau amser i roi gwybod am unrhyw enedigaethau, symudiadau a marwolaethau.
- Ewch i'r System Olrhain Gwartheg (CTS) ar-lein yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod eich gwartheg wedi'u rhestru'n gywir. Rhowch wybod i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) am unrhyw gamgymeriadau.
  - Ewch ati i ddatrys unrhyw broblemau sydd i'w gweld ar y system.
- Cymharwch siartiau TB gyda CTS ar-lein.
- Edrychwch yn rheolaidd ar gofrestr eich buches er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn ac yn gyfredol.
  - Ydy'r wybodaeth yng nghofrestr eich buches yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar CTS ar-lein? Os nad yw, cywirwch y camgymeriad ar unwaith.
- Cadarnhewch fod pasbortau'r gwartheg yn gywir:
  - Oes pasbortau gan yr holl wartheg?
  - Ydy manylion y pasbortau'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar gofnodion y fferm?
  - Oes labeli cod bar wedi'u gosod?
  - Ydy'r pasbortau wedi'u llofnodi?
  - Ydy'r wybodaeth ar y pasbort yn cyd-fynd â'r anifail?
- Dylech anfon pasbortau anifeiliaid nad ydyn nhw ar eich daliad erbyn hyn yn ôl i BCMS.
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl wartheg wedi'u tagio'n gywir.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn archwilio anifeiliaid yn rheolaidd i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion tagio. Os byddwch yn gweld bod unrhyw dagiau ar goll neu os nad oes modd eu darllen – archebwch a gosodwch rai newydd o fewn 28 diwrnod i'r adeg y byddwch yn gweld eu bod ar goll.
- Cyfleusterau trin – gwnewch yn siŵr eu bod yn gadarn ac yn ddiogel a bod gennych chi ddigon o bobl i wneud y gwaith. Mae cyfrifoldeb statudol arnoch chi i ddiogelu iechyd a diogelwch y bobl sy'n dod i'ch fferm, gan gynnwys archwilwyr.

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Rhestr archwilio BCMS o'r gwartheg sydd ar eich daliad ar hyn o bryd.
- Rhestr archwilio BCMS o'r anifeiliaid sydd wedi symud oddi ar eich daliad yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Manylion unrhyw anifeiliaid y mae CTS ar-lein wedi codi cwestiynau amdanyn nhw.
- Map o'ch daliadau fel y cofrestrwyd ar fy CPH.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Darllen dau dag clust yr HOLL wartheg a chofnodi unrhyw dagiau sydd ar goll neu unrhyw anifeiliaid sydd wedi'u camdagio.
- Cadarnhau rhyw, brîd ac oedran pob anifail.
- Ystyried lleoliad yr anifeiliaid mewn perthynas â'r CPH.

**Archwilio cofnodion**

- Ar gyfer yr holl wartheg a welir yn ystod yr archwiliad:
  - Cadarnhau bod pasbort, gyda label cod bar a llofnod y ceidwad arno.
  - Cadarnhau bod y manylion ar restr archwilio'r BCMS yn cyd-fynd â chofnodion y fuches e.e. rhyw, brîd, dyddiad geni, rhif adnabod y fam, symudiadau etc.
  - Cadarnhau bod genedigaethau wedi'u cofrestru a symudiadau wedi'u cofnodi o fewn y terfynau amser ar gyfer y flwyddyn galendr.
- Ar gyfer gwartheg sydd wedi'u symud o'r daliad:
  - Cymharu sampl o gofnodion â rhestr archwilio'r BCMS e.e. rhyw, brîd, dyddiad geni, rhif adnabod y fam, symudiadau.
  - Cadarnhau cofnodion unrhyw anifeiliaid y codwyd cwestiynau amdanyn nhw.
  - Cadarnhau bod genedigaethau wedi'u cofrestru a symudiadau wedi'u cofnodi o fewn y terfynau amser ar gyfer y flwyddyn galendr.

Pan fydd modd, bydd archwilwyr yn ceisio cydlynu archwiliadau adnabod gwartheg gyda phrofion TB fel na fydd yn rhaid amharu ar yr anifeiliaid fwy nag sy'n rhaid; fodd bynnag, ni fydd hynny'n bosibl bob tro.

# Archwiliad o Ddefaid a Geifr (SMR 8)

## Sut i baratoi

- Cyfrifwch yr HOLL stoc a chofnodi ffigurau stoc cywir ar gyfer 1 Ionawr bob blwyddyn.
- Cyflwynwch Stocrestr Flynyddol (dylai gyd-fynd â'r ffigur stoc yn eich cofnodion).
- Gwnewch yn siŵr bod cofnodion yn gyflawn ac yn gyfredol, gan gynnwys manylion am ba bryd y cafodd anifeiliaid eu hadnabod gyntaf.
- Gwnewch yn siŵr bod Trwyddedau Symud ar gael ac yn cael eu cadw yn nhrefn eu dyddiad.
- Gwnewch yn siŵr bod marwolaethau'n cael eu cofnodi a bod dogfennau ategol ar gael e.e. derbynebau iardiau celanedd/cytiau cŵn hela/y Cwmni Stoc Marw Cenedlaethol (NFSCo) sy'n cynnwys rhifau tagiau clust unigol.
- Dylai fod gan bob dafad a gafr dag cywir a dylech osod tag yn lle tag sydd wedi'i golli o fewn 28 diwrnod ar ôl gweld ei fod ar goll.
- Cadarnhewch nifer y defaid ar eich daliad/au.
- Gwnewch yn siŵr bod y cyfleusterau trin yn gadarn ac yn ddiogel a bod gennych ddigon o bobl i wneud y gwaith yn ddiogel.
- Gwnewch yn siŵr eich wedi cofrestru'n Geidwad Defaid a Geifr gydag APHA.

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Copi o'r stocrestr flynyddol.
- Manylion trwyddedau a gyflwynwyd i EID Cymru.
- Map o'ch daliadau fel y'u cofnodir ar fy CPH, gan gynnwys CPH dros dro a Chysylltiadau Tir Dros Dro (TLA's).

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Cyfrif y defaid ar yr **HOLL** ddaliadau rydych yn geidwad arnynt.
- Edrych ar dagiau clust sampl o'r defaid ar bob un o'r daliadau. Mae maint y sampl yn dibynnu ar faint y ddiadell. Os gwelir nad ydych wedi cadw at y gofynion adnabod a thagio, bydd y sampl yn fwy. Os gwelir nad ydych wedi cadw at y gofynion yn yr ail sampl, gellir archwilio'r ddiadell gyfan.

### Archwilio cofnodion

- Ffigur y cyfrif diwedd blwyddyn/stocrestr flynyddol.
- Cofnodion geni/adnabod.
- Cadarnhau bod cofnodion a thrwyddedau symud yn cyfateb i'r manylion a gedwir gan EID Cymru.
- Marwolaethau – wedi'u cofnodi yng nghofnod y ddiadell a'u cymharu â derbynebau iardiau celanedd/cytiau cŵn hela/NFSCo, gan nodi rhifau unigol.
- Cofnodion y tagiau cyfnewid a ddefnyddiwyd.
- Cofnodion y defaid wedi'u huwchraddio o'r tag lladd.
- Gwirio bod sampl o'r anifeiliaid y gwiriwyd eu tagiau wedi'u cofnodi yn y cofnodion, symudiadau neu enedigaethau/adnabod neu gyfnewid/ uwchraddio cofnodion tagiau.

**Cysoni**

- Gweithiwch yn ôl o gyfrif y ddiadell i ffigur cyfrif stoc 1 Ionawr ar gyfer pob daliad. Gall archwiliadau ym misoedd Ionawr a Chwefror weithio'n ôl i 1 Ionawr y flwyddyn gynt er mwyn sicrhau bod digon o symudiadau'n cael eu gwirio. Dylai ffigur y cyfrif diwedd blwyddyn gyfateb i ffigur y Stocrestr Flynyddol.

**Seilir y gwaith cysoni ar:**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y defaid gafodd eu cyfrif | |
| + Nifer y defaid sydd wedi gadael y daliad (h.y. eu gwerthu) | |
| + Nifer a gollwyd | |
| = Is-gyfanswm | |
| - Nifer y defaid sydd wedi dod i'r daliad (h.y. eu prynu) | |
| - Nifer sydd wedi'u geni | |
| = Cyfanswm | |

# Archwiliad Trawsgydymffurfio

## Sut i baratoi

- Dilynwch arferion ffermio da.
- Os ydych yn rhentu tir i mewn neu allan yn ystod y flwyddyn, bydd angen ichi ystyried telerau'r cytundeb contractiol rhyngoch chi a'r trosglwyddai/trosglwyddwr. Dylech wneud yn siŵr bod eich buddiannau'n cael eu diogelu os caiff yr amodau Trawsgydymffurfio eu torri ac y gellir priodoli hynny'n uniongyrchol naill ai i'r ffermwr a drosglwyddodd y tir neu'r ffermwr y trosglwyddwyd y tir iddo.

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Mapiau perthnasol o'r tir a nodwyd ar y Ffurflen Cais Sengl ddiweddaraf.
- Copi o'r Ffurflen Cais Sengl ddiweddaraf.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Cerdded o amgylch yr **HOLL** dir mae'r busnes yn gyfrifol amdano:
  - Yr holl dir sydd wedi'i ddatgan gan y busnes.
  - Unrhyw dir heb ei ddatgan sydd ar gael i'r busnes yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adeiladau, coetiroedd neu fannau anamaethyddol eraill sy'n cael cymorth o dan rai o gynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.
- Edrych ar:
  - y Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a'r
  - y Cyflyrau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) sydd i'w gweld isod (gweler y Canllaw i Ffermwyr ar Drawsgydymffurfio sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru) www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio.

| GAEC | Problemau posib y bydd yr archwiliwr yn chwilio amdanyn nhw |
|---|---|
| **Lleiniau Clustogi** | Taenu gwrtaith, gan gynnwys tail a slyri yng nghyffiniau cwrs dŵr, tyllau twrio, pistyll a ffynhonnau. Ni ddylid taenu gwrtaith anorganig sydd wedi'i weithgynhyrchu o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb. Ni cheir taenu gwrteithiau organig (gan gynnwys tail a slyri) o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6 metr os defnyddir cyfarpar taenu manwl e.e. system chwistrellu, 'trailing shoe' neu far diferion.) Porthi atodol o fewn 10 metr i dŵr wyneb.<br>Ni ddylid defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion o fewn 2 fetr i ddwˆr wyneb oni bai bod gennych drwydded oddi wrth CNC ar gyfer rheoli planhigion estron goresgynnol. |
| **Dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i ddyfrhau** | Newidiadau i Esemptiadau Trwyddedu Tynnu Dŵr ar ôl 1 Ionawr 2018. Bydd angen trwydded bellach er mwyn parhau i dynnu dŵr yn gyfreithlon mewn achosion lle'r oedd esemptiadau yn y gorffennol (os tynnir mwy na'r trothwy a bennir yn yr esemptiad 20m$^3$/y diwrnod.<br>Pob math o ddyfrhau (heblaw am ddyfrhau â chwistrell lle mae angen trwydded eisoes). |
| **Dŵr daear** | Gwirio bod sylweddau peryglus/llygrwyr nad ydynt yn beryglus e.e. dip defaid a phlaladdwyr, yn cael eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu'n briodol, a'u bod yn cydymffurfio ag amodau unrhyw drwydded a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a arferai gael ei alw'n Awdurdodiad Dŵr Daear.<br>Swyddogion CNC fydd yn cynnal yr archwiliad fel arfer. Ar gyfer archwiliadau trawsgydymffurfio, bydd swyddogion CNC yn ymuno ag archwilydd Arolygiaeth Wledig Cymru. |
| **Stoc pridd a charbon – lefel ofynnol o orchudd ar y pridd** | Tir wedi i gynaeafu a'i adael yn foel dros y gaeaf. Glaswelltir wedi'i aredig y dylid fod wedi'i ailhadu ymhen 24 diwrnod fan hwyraf. |
| **Stoc pridd a charbon – Gofynion sylfaenol o ran rheoli tir, amodau penodol ar gyfer y safle er mwyn cyfyngu ar erydu** | Pridd yn cael ei olchi oddi ar y safle (cae); da byw yn erydu cloddiau'n ormodol; da byw yn stablad (sathru) y pridd; gorbori, rhigolau mewn caeau a thystiolaeth am waith mecanyddol ar bridd llawn dŵr. |
| **Stoc pridd a charbon – cynnal deunydd organig** | Llosgi y tu allan i'r tymor; llosgi heb gynllun llosgi; llosgi gweddillion cnwd; ailhadu/aredig heb y caniatâd angenrheidiol h.y. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. |
| **Cadw nodweddion y tirwedd** | Chwalu ffiniau heb ganiatâd; torri perthi (gwrychoedd) yn ystod y cyfnod gwaharddedig; difrod i henebion rhestredig; cwympo mwy na 5 metr ciwbig o bren mewn chwarter calendr; torri Gorchmynion Cadw Coed; aredig/trin y tir o fewn 1 metr i berth/ffin draddodiadol. |

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Diogelu Dŵr (SMR 1)

## Sut i baratoi

- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 1.

Pethau i'w hystyried:

- Mapiau risg (gan gynnwys lleoliad tomenni/tasau mewn caeau ac ardaloedd lle na cheir gwasgaru).
- Cynlluniau Rheoli Maetholion.
- Sicrhwech fod CNC yn cael eu hysbysu cyn dechrau gwaith i adeiladu/newid storfeydd silwair a storfeydd slyri Rheoli rheoliadau llygredd amaethyddol: canllawiau | LLYW.CYMRU

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Mapiau o'r tir a gafodd ei ddatgan ar eich SAF, gan gynnwys unrhyw ardal a ddynodwyd yn NVZ.
- Hanes ymweliadau blaenorol.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Bydd yr arolygydd yn edrych ar y gofynion isod.

**Ar gyfer tir a oedd gynt o dan reoliadau NVZ, mae'r HOLL ofynion wedi bod ar waith cyn i'r Rheoliad Rheoli Llygredd Amaethyddol gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2021.**

**Archwiliad ar y fferm**

| Gofyniad | Cyflwynwyd o dan y Rheoliad Rheoli Llygredd Amaethyddol |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar wasgaru – e.e. peidio â gwasgaru tail nitrogen organig o fewn 50m i dwll turio, pistyll neu ffynnon, 10m i gwrs dŵr (neu 6m os ydych yn defnyddio offer manwl h.y. system esgid lusg (trailing shoe), bar diferion neu chwistrellu).<br>*15m (neu 10m os yn defnyddio offer manwl) os ydych yn dilyn y Dull Rheoli Maethynnau Uwch. | Yn GAEC a oedd ar waith cyn 1af Ebrill 2021<br>Wedi ei ddiweddau 1af Ionawr 2024 |
| Wrth wasgaru gwrteithiau a weithgynhyrchwyd, dylid sicrhau bod llain glustogi o 2m rhwng yr ardal wasgaru a chyrsiau dŵr a thyllau, pistyll neu ffynnon. | Yn GAEC a oedd ar waith cyn 1af Ebrill 2021 |
| Adeiladu systemau storio a thrin Silwair a Slyri, gan gynnwys yr hysbysiad 14 diwrnod y mae'n ofynnol ei roi i CNC cyn adeiladu storfeydd silwair a slyri newydd neu dasau silwair newydd mewn caeau, neu eu hehangu neu eu hailadeiladu'n sylweddol. | O 1af Ebrill 2021 ymlaen |
| Mae lleoliad tomenni/tasau dros dro mewn caeau yn bodloni'r gofynion e.e. pellter oddi wrth nentydd a thyllau turio, lleoliadau blaenorol etc. | O 1af Ionawr 2023 ymlaen |
| Mae digon o le yn y system storio Slyri i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofyniad storio 5 neu 6 mis. | O 1af Awst 2024 ymlaen |

**Archwiliad Cofnodion**

| Gofyniad | Cyflwynwyd o dan y Rheoliad Rheoli Llygredd Amaethyddol |
|---|---|
| Mapiau Risg<br>- Map risg gwasgaru tail.<br>- Lleoliad tomenni/tasau dros dro mewn caeau. | O 1af Ionawr 2023 ymlaen |
| Cyfrif o'r llwyth nitrogen ar gyfer y fferm gyfan (gan gynnwys Nifer Blynyddol ar gyfer Da Byw – oedran a mathau am y 12 mis blaenorol). | O 1af Ionawr 2024 ymlaen<br>Tab 1.1 a 1.2 o'r Gweithlyfr Fferm |
| Cofnodion caeau:<br>Cynllun o'r holl wrtaith a ddefnyddiwyd (organig/gwrteithiau a weithgynhyrchwyd). Chofnodion am yr holl wrtaith Nitrogen a ddefnyddiwyd a'r cnydau – mathau/faint o gynnyrch a ddigwylir. Gall eithriadau fod y bosib ar fferm lle mae mewbynnu isel – gwelir Adendwm am eithriadau. | O 1af Ionawr 2023 ymlaen<br>Tab 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4 o'r Gweithlyfr Fferm |
| Cofnodion am dail organig a fewnforiwyd ac a allforiwyd (os yw hynny'n berthnasol). | O 1af Ionawr 2023 ymlaen |
| Cofnodion am dail organic a fewnforiwyd ac a allforiwyd (os yw hynny'n berthnasol). | O 1af Ionawr 2023<br>Tab 1.3 a 1.4 o'r Gweithlyfr Fferm |
| Ni aethpwyd y tu hwnt i uchafswm Nitrogen o wrtaith organig a ffynonellau gweithgynhyrchu ar gyfer pob cnwd (cyfrifiadau N uchafswm). | O 1af Ionawr 2023 ymlaen<br>Tab 3.1 a 3.4 o'r Gweithlyfr Fferm |
| Nid eir y tu hwnt i uchafswm o 250kg/ha o Nitrogen o wrtaith organig mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ar sail Parseli cauau unigol. | O 1af Ionawr 2023 ymalen<br>Tab 3.4 o'r Gweithlyfr Fferm |
| Nid yw llwyth Nitrogen y fferm gyfan o dail da byw yn fwy na 170kg/ha*<br>*oni bai fod CNC yn cael eu hysbysu o Ddull Rheoli Maethynnau Uwch erbyn 31/3/24, ac os felly rhaid bodloni'r gofynion ychwanegol. | O 1af Ionawr 2024 ymlaen |
| Cyfrif faint o le sydd ar gael i storio slyri. | O 1af Awst 2024 ymlaen<br>Tab 2.5 o'r Gweithlyfr Fferm (dylech ystyried hyn cyn y dyddiad uchod fel bod gennych ddigon o amser i weithredu (os oes angen)) |
| Cyfrifiad cynnyrch slyri | O 1af Awst 2024 ymlaen Tab 2.1 (gwartheg), Tab 2.2 a 2.3 (Dŵr ychwanegol wedi'l halogi) a Tab 2.5 (Slyri moch) o'r Gweithlyfr Fferm. |

Mae'r Gweithlyfr fel nodi'r uchod yn cyfeirio at www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-gweithlyfr-fferm. Nid yw yn ofynol i chi gwbwlhau'r Gweithlyfr Fferm Llywodaraeth Cymru, er hyn mae'r cyfrifiadau yn ofynol.

Swyddogion CNC fydd yn cynnal yr archwiliad fel arfer. O ran archwiliadau trawsgydymffurfio, bydd swyddogion CNC yn eu cynnal ar y cyd ag un o arolygwyr Arolygiaeth Wledig Cymru.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Adar Gwyllt (SMR 2)

## Sut i baratoi

- Peidiwch â lladd, anafu na chymryd unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol.
- Peidiwch â dinistrio'n fwriadol neu'n ddi-hid nyth unrhyw aderyn gwyllt tra bydd y nyth yn cael ei ddefnyddio neu'i adeiladu, nac aflonyddu ar adar ifanc sy'n ddibynnol ar eu rhieni.
- Cadwch at y dyddiadau ar gyfer plygu gwrychoedd / perthi (1 Medi – 31 Mawrth), tocio gwrychoedd/ perthi (1 Medi – 28 Chwefror).
- Dim ond gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi caniatâd/cydsyniad ar ei gyfer y dylech ei wneud mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Map o leoliad unrhyw AGA ar eich fferm.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

- Gwneud yn siŵr nad oes unrhyw waith adfer gwrychoedd wedi'i wneud e.e. tocio, plygu neu fondocio gwrychoedd yn cael ei wneud yn ystod y cyfnodau gwaharddedig (gweler GAEC 7: Gwaharddiad ar dorri/tocio yn ystod y tymor bridio a magu adar – 1 Mawrth tan 31 Awst).
- Chwilio am unrhyw arwyddion/achosion o wenwyno neu ddulliau annetholus o ddal/lladd adar.
- Edrych i weld a losgwyd unrhyw dir lle mae nythod y gallai adar fod yn eu defnyddio.
- Edrych i weld a yw CNC wedi rhoi unrhyw drwyddedau a allai caniatáu gweithgareddau penodol e.e. atal clefydau rhag lledaenu neu atal niwed difrifol i dda byw.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Gwarchod Ffawna a Fflora (SMR 3)

## Sut i baratoi

- Ni ddylai planhigion gwyllt sydd wedi'u rhestru'n 'rhywogaethau a warchodir gan Ewrop' neu'n 'rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol' gael eu pigo, eu casglu, eu torri, eu dadwreiddio na'u dinistrio'n fwriadol.
- Ni ddylid tarfu ar anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u rhestru'n 'rhywogaethau a warchodir gan Ewrop' neu'n 'rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol' ac ni ddylid difrodi, dinistrio na rhwystro'u mannau cysgodi.
- Dim ond gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi caniatâd/cydsyniad ar ei gyfer y dylech ei wneud mewn:
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Map o leoliad unrhyw ACA neu SoDdGA ar eich fferm.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

- Edrych i weld a yw unrhyw weithrediadau penodedig sy'n cael eu cyflawni ar SoDdGA/ACA yn cael eu cyflawni yn unol â chaniatâd ysgrifenedig CNC.
- Edrych i weld a yw mannau cysgodi neu fannau bridio anifeiliaid gwarchodedig wedi cael eu rhwystro, eu difrodi neu eu dinistrio.
- Edrych i weld a oes arwyddion o aflonyddu ar unrhyw anifail gwarchodedig, neu a oes rhai wedi cael eu lladd neu eu hanafu'n anghyfreithlon.
- Edrych i weld a oes unrhyw blanhigyn gwarchodedig wedi cael ei bigo, ei gasglu, ei dorri, ei ddadwreiddio neu ei ddinistrio'n fwriadol.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Bwyd a Chyfraith Bwyd (SMR 4)

## Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr bod profion TB yn cael eu cynnal erbyn y dyddiad priodol. Ceisiwch brofi mor gynnar â phosibl yn ystod y cyfnod profi er mwyn osgoi problemau. Rhaid rhoi cyfrif am bob anifail cyn y bydd APHA yn derbyn bod prawf wedi'i gwblhau.
- Gwnewch yn siŵr mai dim ond cwmnïau porthiant cofrestredig rydych yn eu defnyddio.
- Cadwch dderbynebau bwyd e.e. nodiadau danfon, anfonebau etc.
- Os ydych yn cynnwys fitaminau, mwynau, ychwanegion penodol neu feddyginiaethau milfeddygol mewn rhag-gymysgedd neu fwyd anifeiliaid, rhaid i'r cynhyrchwyr hynny fod wedi'u cofrestru (at eu defnydd eu hunain ac i'w gwerthu) gyda'r awdurdod cymwys.
- Rhaid i gofnodion meddyginiaethau a phlaladdwyr fod yn gyfredol. Rhaid cael gwared mewn ffordd briodol ar unrhyw gynhyrchion sydd wedi darfod.
- Gwnewch yn siŵr bod unrhyw Feddyginiaethau Milfeddygol yn cael eu rhoi' n gywir fel y nodir ar y label a bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn cael eu parchu.
- Gwnewch yn siŵr fod mannau storio porthiant yn lân. Rhaid storio gwastraff a sylweddau peryglus mewn ffordd sy'n atal cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rhag cael eu halogi. Rhaid storio bwyd anifeiliaid yn ddigon pell oddi wrth gemegau neu unrhyw gynhyrchion eraill y gwaherddir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid.
- Gwnewch yn siŵr bod porthiant yn cael ei ddiogelu rhag plâu.
- Rhaid i gynhyrchwyr wyau (dros 50 o adar) fod wedi'u cofrestru gydag APHA, rhaid cadw wyau'n lân, yn sych ac allan o lygad yr haul.
- Gofalwch fod gennych gynllun bioddiogelwch/Iechyd Anifeiliaid (trafodwch gyda'ch milfeddyg).
- Cynhyrchwyr llaeth (os ydych yn bodloni safonau cynlluniau Gwarant Ffermydd Llaeth, rydych yn bodloni gofynion Trawsgydymffurfio sy'n gysylltiedig â hylendid llaeth).

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Edrych ar y man storio bwyd – a yw'n ddigonol a sicrhau nad oes risg iddo gael ei lygru gan sylweddau peryglus.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn dilyn eich polisi Bioddiogelwch e.e. mesurau rhagofalus wrth gyflwyno anifeiliaid newydd.
- Edrych ar y storfa meddyginiaethau ac archwilio sampl o'r cynhyrchion.
- Cynhyrchwyr wyau – edrych ar y storfeydd.
- Cynhyrchwyr llaeth – archwilio'r llaethdy/cyfarpar a thrafod trefniadau.

**Archwilio cofnodion**

- Edrych ar sampl o'r dogfennau (h.y. nodiadau danfon porthiant a derbynebau gwerthu) ar gyfer pob menter fferm (e.e. da byw, llaeth, cnydau etc).
- Gwneud yn siŵr bod cyflenwyr porthiant wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod cymwys.
- Edrych ar y cofnod Meddyginiaethau a gwneud yn siŵr bod cynhyrchion wedi'u rhestru a bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn cael eu parchu.
- Cymharu profion TB a gynhaliwyd cyn ac ar ôl symud ar gyfer anifeiliaid a werthwyd, a brynwyd neu a symudwyd (pan fo hynny'n berthnasol).
- Os cymysgir porthiant, cadarnhau bod cynhyrchwyr wedi'u cofrestru.
- Edrych ar gofnodion adnabod anifeiliaid sydd wedi cael triniaeth.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Moch – Adnabod a Chofrestru (SMR 6)

## Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr bod cofnodion yn gyflawn ac yn gyfredol.
- Cadwch gopïau o ddogfennau symud.
- Defnyddiwch ddulliau adnabod priodol ar yr anifeiliaid sy’n gadael y daliad.
- Cwblhewch gyfrif blynyddol.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cenfaint wedi’i chofrestru gyda’r awdurdod cymwys (APHA).

## Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Manylion am drwyddedau a gyflwynwyd i eAMLS.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Cyfrif yr holl foch ar y daliad.
- Edrych ar sampl o dagiau anifeiliaid a brynwyd – tag clust, slapfarc neu datŵ.
- Edrych ar y dull adnabod (tag, tatŵ neu slapfarc) ar y moch sy’n gadael y daliad.

### Archwilio cofnodion

- Cadarnhau bod y moch wedi’u cofrestru gydag awdurdod cymwys.
- Ffigurau’r cyfrif blynyddol.
- Cofnod symud a thrwyddedau symud.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio
# Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (SMR 9)

## Sut i baratoi

- Peidiwch â bwydo bwydydd sydd wedi’u gwahardd (protein anifeiliaid) i unrhyw anifail fferm.
- Peidiwch â gadael i fwydydd ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ac sydd â phrotein dan gyfyngiadau ynddo halogi porthiant ar gyfer anifeiliaid sy’n cnoi cil.
- Gwnewch yn siŵr bod bwyd cŵn etc. yn cael ei storio ar wahân i fwydydd ar gyfer anifeiliaid fferm.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Cadarnhau pa fathau o anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid sy’n cael eu cadw.
- Cadarnhau a oes proteinau gwaharddedig yn cael eu defnyddio, ac os ydynt, a yw’r awdurdodiad/cofrestriad/caniatâd ar gyfer eu storio a/neu eu defnyddio ar gael.
- Gwneud yn siŵr bod bwydydd sydd dan gyfyngiadau yn cael eu cadw a’u bwydo ar wahân.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Cynhyrchion Diogelu Planhigion – Plaladdwyr (SMR 10)

## Sut i baratoi

- Cadwch gofnodion cyfredol am yr holl blaladdwyr y byddwch yn eu defnyddio (gan gynnwys y rhain a ddefnyddir i sbot-chwistrellu):
  - pa gnwd gafodd ei drin
  - dyddiad trin y cnwd
  - y rheswm dros ei drin
  - pa gynnyrch a ddefnyddiwyd, gan gynnwys ei rif MAPP neu MAFF
  - faint o'r cynnyrch a ddefnyddiwyd
  - pa gaeau gafodd eu trin
  - y tywydd pan gafodd y cnwd ei drin.
- Darllenwch labeli cynhyrchion cyn eu defnyddio a gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y manylion, gan gynnwys lleiniau clustogi (pan fo hynny'n berthnasol) ac yn cadw llygad ar amodau'r tywydd.
- Gwnewch yn siŵr bod contractwyr yn darparu cofnodion manwl.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru gyda Defra – ffurflen cynhyrchion proffesiynol ar gyfer diogelu planhigion (PPP's).
- Gwnewch yn siŵr bod peiriannau'n cael eu graddnodi (calibradu) a'u hailbrofi'n rheolaidd.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Yr wybodaeth sydd i'w gweld ar sampl o gynhyrchion sy'n cael eu storio (e.e. enw/cynhyrchydd y cynnyrch, rhif/cymeradwyaeth MAFF/MAPP adeg ei ddefnyddio).
- Archwilio sampl o gaeau i weld a ydynt wedi cael eu trin.

### Archwilio cofnodion

- Cofnod plaladdwyr – manylion prynu/defnyddio.
- Gwneud yn siŵr bod cynhyrchion yn cael eu defnyddio yn unol â'r fanyleb ar y label, e.e. ar y cnwd priodol.
- Edrych i weld a oes cofnod ar gyfer unrhyw gaeau y gwelir eu bod wedi'u trin.

# Archwiliad Trawsgydymffurfio Lles Lloi (SMR 11), Lles Moch (SMR 12), Lles Cyffredinol Anifeiliaid (SMR13)

## Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2007. Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hynny'n cynnwys:
  – gwybod am y cod ymarfer perthnasol ar gyfer lles da byw a defnyddio'r cod hwnnw
  – cadw cofnodion am feddyginiaethau milfeddygol, a'u cadw'n gyflawn ac yn gyfredol
  – cadw cofnodion am dda byw sydd wedi marw yn gyfredol, gan gofio cofnodi'r dyddiadau y buont farw.

## Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

### Archwiliad ar y fferm

- Cadarnhau bod yr holl dda byw a ffermir sydd dan eich gofal yn dod o dan y Cyfeirnod Cwsmer (CRN) perthnasol – gallai fod gennych fwy nag un rhif os oes gennych fwy na un daliad.
- Cyfrif yr anifeiliaid ac edrych ar eu lles cyffredinol.

Dyma enghreifftiau o'r hyn y bydd yr archwilydd am ei gadarnhau yn ystod yr ymweliad (nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr):

- Bod digon o archwiliadau'n cael eu cynnal, yn ôl oedran/amgylchedd y da byw e.e. dwys/heb fod yn ddwys.
- Bod yr anifeiliaid yn cael eu bwydo i fodloni eu hanghenion corfforol, ynghyd â digon o ddŵr i fodloni'r angen sydd arnyn nhw am hylif.
- Bod y cyfarpar porthi a dyfrio yn addas i rywogaeth, oedran a maint yr anifeiliaid ac yn ddigonol ar gyfer maint y grŵp.
- Bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw mewn grwpiau addas yn ôl oedran/rhyw/maint yr anifeiliaid yn y grŵp er mwyn osgoi cystadleuaeth a bwlio.
- Bod gan yr anifeiliaid ddigon o le yn y lloc yn ôl rhywogaeth a maint y grŵp.
- Nid oes yn yr adeiladau unrhyw ddeunyddiau niweidiol nac ymylon miniog a allai anafu'r anifeiliaid.
- Bod digon o olau yn y adeiladau i fedru archwilio'r anifeiliaid ac i ddiwallu eu hanghenion biolegol.
- Bod gan yr anifeiliaid gysgod a man sych sy'n draenio'n dda i orwedd arno.
- Nid yw'r anifeiliaid yn cael eu cyfyngu rhag symud mewn ffordd a allai achosi dioddefaint neu anaf.
